



Adran 21 C&A

Q Beth gallaf ei wneud wrth gael hysbysiad Adran 21?

A Ewch i wefan Rhentu Doeth Cymru i weld a yw'r landlord wedi cofrestru'r eiddo. Cyfeiriad gwefan Rhentu Doeth Cymru yw: <https://www.rhentudoeth.llyw.cymru/cym/check-register/>

Q Beth os nad yw'r eiddo wedi ei gofrestru?

A Nid yw'r hysbysiad Adran 21 yn ddilys. Cewch aros yn yr eiddo.

Q Beth os nad yw'r landlord/asiant rheoli wedi ei gofrestru?

A Nid yw'r hysbysiad Adran 21 yn ddilys. Cewch aros yn yr eiddo.

Q A yw eich eiddo rhent yn cael ei reoli gan y landlord yn uniongyrchol neu gan asiant rheoli, beth i'w wneud nesaf?

A Ewch i wefan Rhentu Doeth Cymru i weld p'un a yw'r landlord/asiant rheoli wedi'i gofrestru. <https://www.rhentudoeth.llyw.cymru/cym/check-register/>

Q Beth os nad yw'r landlord/asiant rheoli wedi ei gofrestru?

A Nid yw'r hysbysiad Adran 21 yn ddilys. Cewch aros yn yr eiddo.

Q Mae'r eiddo wedi ei gofrestru a'r landlord/asiant gosod wedi eu trwyddedu, beth i'w wneud nesaf?

A Cwblhewch ffurflen incwm a gwariant, cyflwynwch bob cyfriflen banc am y tri mis diwethaf, slip talu ac ati i gael eich asesu ar gyfer cymorth gan Gynllun Tenantiaeth â Chymorth y Fro am eiddo rhent preifat.

Q Beth fydd yn digwydd os byddaf yn gadael yr eiddo gyda hysbysiad annilys?

A Gallwch gael eich ystyried yn fwriadol ddigartref.

Q Beth gall y landlord/asiant rheoli ei wneud nesaf?

A Gall y landlord/asiant rheoli gofrestru'r eiddo a gwneud cais am drwydded drwy Rentu Doeth Cymru. Pan fydd y landlord/asiant rheoli yn cwblhau'r broses hon gall ailgyflwyno'r hysbysiad Adran 21.





Adran 2 | C&A

Q A gaiff y landlord ofyn i mi adael neu newid y cloeon?

A Na chaiff, ni chaiff y landlord eich troi allan, dim ond gorchymyn y llys all wneud hyn. Pe byddai'r landlord yn newid y cloeon, galwch yr heddlu gan mai troi allan anghyfreithlon fydd hyn.

Q Beth fydd yn digwydd mewn achos Gorchymyn Llys?

A Gall y landlord wneud cais i'r Llys i ailfeddiannu'r eiddo Mae hyn yn cynnwys costau y byddwch yn atebol i'w talu. Pan ganiateir gorchymyn ildio meddiant, gallwch aros yn yr eiddo nes y caiff beili gyfarwyddyd, a bydd y gost arnoch hefyd. Byddwn yn gweithio gyda chi a'ch landlord i sicrhau nad yw hyn yn digwydd.

Q Nid wyf yn dymuno rhentu preifat eto, hoffwn fynd i eiddo'r Cyngor?

A Rydym ni oll yn gwybod am brinder eiddo rhent Cymdeithasol ac yn anffodus efallai nad hwn fydd y llwybr cyflymaf i chi, o ystyried bod pobl sydd wedi bod yn aros am amser sylweddol hir am hyn. Dan Gynllun Tenantiaeth â Chymorth y Fro ni fyddem yn ystyried cymorth tuag at eiddo anfforddiadwy gan na fydd hyn yn gais llwyddiannus. Os byddwch yn cwblhau eich ffurflen incwm a gwariant a chyflwyno yr holl gyfriflenni banc a slipliau talu ac ati, gall yr amser a gymerir i asesu eich cais ostwng a gallwch sicrhau eiddo'n gyflym.

